

# CYNLLUN ARBENIGWR YFORY

## Swydd Hyfforddai Graddedig



### Canllawiau ar gyfer cyflwyno eich cais

**Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn ymgeisio i fod yn rhan o Gynllun Arbenigwr Yfory.**

Mae'n bwysig bod eich cais yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd, wedi ei chyflwyno'n gryno ac eglur. Dylech edrych yn ofalus ar y wybodaeth yn yr *e-Becyn Gwybodaeth a Manylion y Person* i sicrhau hyn.

Wrth gwblhau'r rhan **Gwybodaeth Bellach** yn eich *Cais am Swydd*, hoffem i chi ateb y cwestiynau isod, gan ddilyn y strwythur a chanllawiau, a chadw at y nifer geiriau.

### PWYNTIAU PWYSIG

- Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, rydym yn eich annog i gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg.
- Bydd dilyn y strwythur a'r canllawiau isod yn fanteisiol i'ch cais. Noder y byddwn yn rhoi ystyriaeth i hyn pan fyddwn yn tynnu rhestr fer.
- Pan fyddwch yn disgrifio eich enghreifftiau, dylech fanylu ar beth a wnaethoch a'r effaith a gafodd.
- Mae gwybodaeth fanwl o'r anghenion isod yn yr e-Becyn Gwybodaeth.
- Byddwn yn cysylltu â chi drwy **FFONIO** os byddwch yn llwyddiannus.

### CWESTIYNAU

#### **1. Gweithio gydag eraill**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi weithio yn effeithiol gydag eraill.

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **2. Cyfathrebu gyda hyder**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi gyfathrebu gyda hyder

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **3. Cynllunio a threfnu**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi gynllunio neu drefnu yn effeithiol

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **4. Cyflawni canlyniadau o werth**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi gyflawni canlyniadau o werth

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **5. Dadansoddi a datrys problemau**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ddadansoddi gwybodaeth neu ddatrys problem.

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **6. Ysgogi a bod yn ystywyth**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ysgogi eich hun neu eraill, neu arddangos yr agwedd gywir i ymdopi â newid.

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **7. Ymrwymo i lywodraeth leol ac i'r gymuned**

Rhowch un enghraifft o ddigwyddiad sy'n dangos eich bod yn gallu ymrwymo i ymgyrch benodol, i lywodraeth leol neu i'r gymuned.

*Dim mwy na 150 o eiriau.*

#### **8. Y potensial i arwain**

Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ddangos parodrwydd i arwain eraill e.e. mewn sefyllfa addysgiadol (ysgol, coleg, prifysgol), chwaraeon, yn gymdeithasol, yn gymunedol neu mewn gwaith.

*Dim mwy na 250 o eiriau.*

## **GWYBODAETH YCHWANEGOL:**

Er gwybodaeth, noder bod y disgwyliadau canlynol yn berthnasol i bob swydd o fewn y Cyngor:

- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle
- Gweithredu o fewn polisiau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor.
- Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gamdrin